# LLAIS Y DINASYDDION



**"Mae etholwyr addysgedig yn etholwyr grymus. Dinasyddion gwybodus yw amddiffynwyr mwyaf rhyddid. Mae llywodraeth oleuedig yn un sy'n democrateiddio."** Kofi Annan, cyn-Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig

## GWNEUD I'R CYFRYNGAU WEITHIO I GYMRU



**Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru a'r Sefydliad Materion Cymreig yn gweithio gyda phobl ar draws Cymru i archwilio sut gellir gwella'r cyfryngau, newyddion, a gwybodaeth yng Nghymru.** Rydym yn dymuno deall o ble mae pobl yn cael eu newyddion a'u gwybodaeth, i ba raddau maen nhw'n ymddiried ynddo a sut mae'n gwneud iddynt feddwl a theimlo am wleidyddiaeth yng Nghymru.

Yn ystod haf 2022, daeth 15 o bobl leol o ledled Cymru at ei gilydd ar-lein i drafod, dadlau a dysgu. Testun eu trafodaeth oedd y cwestiwn: *I ba raddau ydy'r newyddion yn helpu dinasyddion Cymru i ddeall gwleidyddiaeth?*


Ar ddiwedd y broses, cytunodd y Panel Dinasyddion gyfres o argymhellion i wella sut mae cyfryngau Cymru'n gweithio. Yn gefn i'r holl argymhellion yw'r syniad bod ffynonellau newyddion a gwybodaeth dibynadwy yn caniatáu i bobl wneud dewisiadau gwybodus am faterion sydd o bwys iddynt, gan gynnwys cymryd rhan mewn prosesau democrataidd fel etholiadau.

# ARGYMHELLION

**Ar ôl gwrando ar ystod o arbenigwyr yn rhannu eu barn a'u syniadau eu hunain, cytunodd Panel y Dinasyddion fod yna dri pheth mawr yn bwysig os ydym yn dymuno i'r cyfryngau weithio'n well i bobl yng Nghymru.**

## "PA MOR DDA YDY'R NEWYDDION YN HELPU POBL CYMRU I DDEALL GWLEIDYDDIAETH?"

## 1…



### RHEOLEIDDIO'R CYFRYNGAU

**Cytunodd y Panel fod yn rhaid i ni ddod o hyd i ffordd o sicrhau fod pobl gyffredin yn gallu ymddiried yn yr hyn maen nhw'n ei glywed, ei ddarllen, a'i wylio.** Mae'n anodd gwneud newidiadau yng Nghymru gan fod llawer o bapurau newyddion, sianeli teledi a radio, a gwefannau wedi eu lleoli yn Llundain neu dramor, ond mae'r panel yn credu:

- Dylid gwneud o leiaf rhai penderfyniadau pwysig am ddarlledu yng Nghymru
- Fod Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru yn syniad da
- Dylai pobl gyffredin gael dweud eu dweud ar bolisi'r cyfryngau
- Dylai cwmnïau yn y cyfryngau yng Nghymru dderbyn sgôr ymddiriedaeth yn debyg i'r sgôr hylendid i fwytai.

## 2…

### ADDYSG DEMOCRATIAETH A DINASYDDIAETH

**Cytunodd y Panel fod gan y rhan fwyaf o bobl lefel eithaf isel o ddealltwriaeth am wleidyddiaeth.** Roeddent hefyd yn meddwl nad yw'r newyddion yn helpu pobl i ddeall gwleidyddiaeth, ac yn ogystal nad yw ysgolion yn dysgu digon am ddemocratiaeth a sut mae modd i ddinasyddion gyfranogi. Dywedont hefyd fod prin gyfle i oedolion ddal fyny ar yr hyn y collasant yn yr ysgol, ac felly maen nhw'n argymell:

- Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau addysg democratiaeth mewn ysgolion ac yn y gymuned ehangach
- Dylai cymwysterau newydd gynnwys dysgu am ddemocratiaeth a gwleidyddiaeth
- Dylai hyfforddiant ganiatáu i athrawon arbenigo mewn gwleidyddiaeth.



## 3…



### CYDNABOD CYMREICTOD

**Cytunodd Panel y Dinasyddion nad yw ein cyfryngau presennol yn adlewyrchu cymunedau Cymru yn ddigonol.** Daw llawer o'n newyddion o Loegr, ac mae'n anghywir neu ond yn ymwneud â Lloegr. Roeddent hefyd o'r farn nad oes gan bobl Cymru ddigon o wybodaeth am hanes a diwylliant Cymru, gan gynnwys yr iaith Gymraeg, felly maen nhw'n credu:

- Fod cyllido gan Lywodraeth Cymru ar gyfer newyddiaduriaeth budd cyhoeddus Cymreig yn syniad da
- Y dylid creu adnoddau dysgu am ddemocratiaeth yng Nghymru, gyda ac ar gyfer pobl gyffredin, a dylid eu hybu drwy ysgolion ac mewn cymunedau.

*Cafodd y Brifysgol Agored a'r Sefydliad Materion Cymreig gefnogaeth gyda'r ymchwil hwn gan Sefydliad Sortition. Nhw recriwtiodd cyfranogwyr Panel y Dinasyddion gan sicrhau fod y detholiad yn adlewyrchu'r gymdeithas ehangach. Mutual Gain wnaeth helpu i ddylunio a chyflenwi'r gwaith. Rydym hefyd yn rhoi diolch i Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree am eu cyllido i waith y Sefydliad Materion Cymreig ar y cyfryngau a democratiaeth.*